

Arolygiad o Wasanaethau Oedolion Hŷn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cynnwys

Cefndir	4
Gwasanaethau atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn (dros 65 oed) sy'n byw yn y gymuned	5
Cryfderau a Blaenoriaethau ar gyfer Gwella	6
Llesiant	8
Pobl – llais a dewis	12
Partneriaethau ac integreiddio – Cydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau	16
Atal ac ymyrraeth gynnar	19
Dull	22
Y Gymraeg	22
Cydnabyddiaethau	23

Cefndir

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi bod mewn grym ers bron tair blynedd. Y Ddeddf yw'r fframwaith cyfreithiol sy'n dwyn cyfraith gwasanaethau cymdeithasol ynghyd ac yn ei moderneiddio yng Nghymru.

Er ei bod yn her enfawr, mae'r Ddeddf wedi cael ei chroesawu'n gyffredinol yn y sector fel peth da, sy'n cynnig cyfleoedd sylweddol ac ystyriol i newid, a hynny pan fo galw cynyddol, disgwyliadau sy'n newid a llai o adnoddau.

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol, byrddau iechyd a Gweinidogion Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt fynd ati i hyrwyddo llesiant y rhai y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalmwyr y mae arnynt angen cymorth.

Mae egwyddorion y Ddeddf fel a ganlyn:

- Cefnogi pobl y mae ganddynt anghenion gofal a chymorth er mwyn sicrhau eu **llesiant**.
- **Pobl** sydd wrth wraidd y system newydd drwy roi cyfle cyfartal iddynt ddweud pa gymorth y maent yn ei gael.
- **Partneriaethau a chydweithredu** sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau.
- Bydd gwasanaethau yn hyrwyddo'r broses o **atal** anghenion rhag gwaethygu a rhoi'r help cywir ar yr adeg gywir.

Yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cymru Iachach', sef cynllun strategol a ddatblygwyd mewn ymateb i Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae Cymru Iachach yn esbonio'r uchelgais o ddod ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ynghyd, fel y cânt eu cynllunio a'u darparu ar sail anghenion a dymuniadau unigolion, gyda llawer mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach a hyrwyddo llesiant. Mae Cymru Iachach yn disgrifio sut y dylid cydlynu dull system gyfan ddi-dor o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Gweinidogion wedi cofnodi pwysigrwydd bod â hyder ac uchelgais yn y sector i sicrhau canlyniadau. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi datblygu ein dull o arolygu gan ganolbwyntio ar gydweithredu a chryfderau, gyda'r bwriad o gefnogi arloesedd ac ysgogi gwelliant.

Arweinir yr arolygiad hwn gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac fe'i cynhelir ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Gwasanaethau atal a hyrwyddo annibyniaeth i oedolion hŷn (dros 65 oed) sy'n byw yn y gymuned

Diben yr arolygiad hwn oedd ymchwilio i ba mor dda y mae'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn atal anghenion oedolion hŷn rhag cynyddu. Nododd yr arolygiad lle mae cynnydd wedi cael ei wneud o ran gweithredu'r Ddeddf a lle mae angen gwella.

Gwnaethom ni (AGC ac AGIC) ganolbwyntio ar brofiad oedolion hŷn pan fyddant yn dod i gysylltiad â gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn symud drwyddynt nes yr adeg y gallai bod angen iddynt symud i gartref gofal. Gwnaethom hefyd ystyried yr adegau pan gawsant brofiad o gydweithio rhwng gwasanaethau'r Awdurdod Lleol a gwasanaethau'r Bwrdd Iechyd, neu pan fyddent wedi cael budd o hynny.

Gwnaethom werthuso ansawdd y gwasanaeth o fewn paramedrau pedair egwyddor sylfaenol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (fel y'u rhestrir uchod) ac ystyried y ffordd y cawsant eu cymhwyso'n ymarferol ar dair lefel:

- Unigol
- Sefydliadol
- Strategol

Rydym bob amser yn ystyriol o ddisgwyliadau fel y'u hamlinellir yng nghodau ymarfer y Ddeddf:

- 'Yr hyn sy'n bwysig' – canolbwyntio ar ganlyniadau
- Effaith – canolbwyntio ar ganlyniad nid proses
- Dull sy'n seiliedig ar hawliau – Deddf Galluedd Meddyliol
- Rheoli – cydberthnasau
- Amserol
- Hygyrch
- Cymesur – cynaliadwyedd
- Yn seiliedig ar gryfderau
- Ataliol
- Wedi'u cynllunio a'u rheoli'n dda
- Wedi'u harwain yn dda
- Effeithlon ac effeithiol / Gofal iechyd darbodus
- Ymarfer risg gadarnhaol ac amddiffynadwy
- Y cyfuniad o ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'i wreiddio mewn gwybodaeth, gyda barn broffesiynol gynnil

Cryfderau a Blaenoriaethau ar gyfer Gwella

Mae AGC ac AGIC yn tynnu sylw'r awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol at gryfderau a meysydd i'w gwella. Rydym yn disgwyl i gryfderau gael eu cydnabod a'u dathlu a'u defnyddio fel cyfleoedd i adeiladu arnynt. Rydym yn disgwyl i flaenoriaethau ar gyfer gwella arwain at gamau gweithredu penodol gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl yn ardal yr awdurdod lleol yn unol â gofynion deddfwriaeth a chanllawiau arfer da.

Llesiant	
Cryfderau	<p>Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol (CBS) Torfaen ddealltwriaeth drylwyr a datblygedig o heriau presennol poblogaeth sy'n heneiddio ac effaith bosibl galw cynyddol am ofal cymdeithasol.</p> <p>Mae CBS Torfaen wedi datblygu ei arfer yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant er mwyn ceisio hybu llesiant pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt yn seiliedig ar y rhagdybiaeth mai'r bobl eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i farnu eu llesiant eu hunain.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Datblygu mesurau perfformiad i fonitro effaith y timau ardaloedd
Pobl – llais a dewis	
Cryfderau	<p>Mae CBS Torfaen yn ymrwymedig i sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn wydn gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau di-dor, personol o safon uchel i bobl.</p> <p>Mae gan CBS Torfaen ddealltwriaeth dda o anghenion dysgu a datblygu'r gweithlu ac mae ganddo raglen hyfforddiant i ddiwallu'r anghenion hynny.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Sicrhau bod cymunedau a phartneriaid yn deall natur newidiol y ddarpariaeth gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn well.</p> <p>Annog pobl i fanteisio ar Daliadau Uniongyrchol.</p> <p>Hyrwyddo asesiadau gofalwyr yn well a monitro nifer y gofalwyr sy'n manteisio arnynt.</p>
Partneriaethau, integreiddio a chydweithredu sy'n ysgogi'r broses o ddarparu gwasanaethau	
Cryfderau	<p>Mae cydberthnasau cadarn wedi'u meithrin â gwasanaethau tai sy'n dylanwadu ar amrywiaeth o ddatblygiadau er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn yn CBS Torfaen.</p> <p>Mae CBS Torfaen yn gweithio'n dda gyda phartneriaid a phobl sy'n cael gofal a chymorth, gan ddatblygu cynlluniau da a gaiff eu</p>

	cyd-gynhyrchu.
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	Gellid achub ar fwy o gyfleoedd ar gyfer dysgu strwythuredig ar y cyd ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, yn benodol er mwyn ysgogi timau adnoddau cymunedol i integreiddio â'i gilydd.
Atal ac ymyrraeth gynnar	
Cryfderau	<p>Drwy ei dimau ardaloedd, mae CBS Torfaen yn defnyddio ei adnoddau'n arloesol er mwyn darparu gwasanaethau ataliol.</p> <p>Dangosodd CBS Torfaen ei fod yn barod i arloesi ac ystyried technoleg er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.</p> <p>Gwelsom fod defnydd da'n cael ei wneud o dechnoleg gynorthwyol a bod camau gweithredol yn cael eu cymryd i ystyried ffyrdd newydd o ddatblygu a gwreiddio'r defnydd a wneir o'r dechnoleg honno yn ymarferol.</p>
Blaenoriaethau ar gyfer gwella	<p>Ystyried hyrwyddo sefydliadau yn y trydydd sector wrth ddatblygu a darparu gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol er mwyn gwneud cymunedau'n fwy gwydn.</p> <p>Datblygu mentrau cymdeithasol a chyrrff cydweithredol sy'n cynnwys pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt, a'u gofalwyr.</p>

1. Llesiant

Canfyddiadau:

Dangosodd yr awdurdod lleol ddealltwriaeth dda o'i gryfderau, meysydd sy'n peri her a meysydd i'w gwella.

Mae gan yr uwch-reolwyr a'r aelodau etholedig ymrwymiad hirdymor i weledigaeth CBS Torfaen ar gyfer cynnal a hyrwyddo llesiant oedolion hŷn sy'n byw yn y gymuned, a dealltwriaeth ymarferol ohoni.

Mae'r awdurdod lleol yn cefnogi ei staff ac mae'r gweithlu'n sefydlog gyda lefelau isel o drosiant.

Mae angen i'r awdurdod lleol ddatblygu ei systemau sicrhau ansawdd a'u rhoi ar waith er mwyn cael darlun llawn o ansawdd y gwaith sy'n cael ei wneud gan staff.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 1.1. Roedd lleisiau pobl yn amlwg yn y gwaith a wnaed ac roedd eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau (sgwrs ar yr hyn sy'n bwysig) yn hollbwysig er mwyn helpu pobl i gyflawni eu canlyniadau personol a diogelu pobl. Gwelsom sgysiau manwl ar 'yr hyn sy'n bwysig' yn llawer o'r ffeiliau a adolygwyd gennym. Yn ôl y bobl y gwnaethom siarad â nhw, gofynnir am eu barn a gwrandewir arni a dywedodd y bobl hyn wrthym fod eu gweithwyr cymdeithasol ac aelodau eraill o staff yn eu cefnogi mewn ffordd barchus.
- 1.2. Gwelsom fod cydberthnasau cadarnhaol yn bodoli rhwng y bobl sy'n cael gofal a chymorth a staff ac asiantaethau partner. Siaradodd y bobl am ymyriadau amserol ac roedd hi'n bwysig nodi bod y staff yn cymryd amser i ddod i'w hadnabod drwy sgysiau manwl. Roeddent hefyd yn cael budd o barhad o ran gweithwyr. Roedd yr asesiadau y gwnaethom eu hadolygu yn seiliedig ar gryfderau, ac wedi eu hysgrifennu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a oedd yn adlewyrchu barn a dymuniadau'r bobl.
- 1.3. Mae CBS Torfaen yn hybu llesiant pobl drwy ddarparu pecynnau gofal a chymorth sy'n galluogi pobl i gyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd, i lawer o bobl, yn golygu aros yn eu cartrefi eu hunain.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 1.4. Mae CBS Torfaen yn darparu ei wasanaethau i bobl hŷn drwy dimau ardaloedd sy'n gweithio ledled y sir. Mae pum tîm ardal amlddisgyblaethol, dau yn y gogledd a thri yn y de, sy'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, gweithwyr gofal cymunedol, cynorthwywyr ailalluogi a chynorthwywyr therapi galwedigaethol.
- 1.5. Roedd yr awdurdod lleol wedi comisiynu ymgynghoriaeth annibynnol i'w helpu i drawsnewid arfer yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a

Llesiant, drwy fodel gweithredu sy'n seiliedig ar feddwl drwy systemau. Mae pob aelod o staff wedi cael hyfforddiant er mwyn sicrhau cysondeb o ran arfer a dull gweithredu sy'n cynnig cymorth i bobl sy'n canolbwyntio ar eu canlyniadau personol. Mae arfer wedi cael ei wella ymhellach yn sgil cyflwyno hyfforddiant ar sgysiau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel rhan o'r ateb.

- 1.6. Gwelsom fod y staff yn teimlo'n gadarnhaol iawn am y newid mewn arfer a oedd, yn eu barn nhw, yn cyd-fynd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a newidiadau i ddeddfwriaeth. Siaradodd llawer o staff am y canlyniadau gwell y mae pobl yn eu cyflawni a'r ffaith eu bod yn cael mwy o foddhad o wneud gwaith cymdeithasol go iawn.
- 1.7. O'n harsylwadau, roedd hi'n amlwg bod yr awdurdod lleol wedi mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio er mwyn ei helpu i drawsnewid arfer. Mae hyn wedi arwain at lai o ddogfennau'n cael eu dyblygu ac at symud penderfyniadau o reolwyr i ymarferwyr gwaith cymdeithasol rheng flaen, gan roi mwy o ymreolaeth iddynt. Wrth adolygu ffeiliau, gwelsom enghreifftiau o ymarferwyr yn awdurdodi gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal pobl, fel cymhorthion ac addasiadau neu becynnau gofal, mewn ffordd amserol gan alluogi pobl i aros yn eu cartrefi, neu ddychwelyd adref o'r ysbyty yn unol â'u dymuniadau. Roedd y dull gweithredu hwn yn cael ei fonitro'n agos gan arweinwyr y timau er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cywir yn cael eu gwneud a bod unrhyw fylchau a nodwyd yn cael eu llenwi. Mae'r newid hwn mewn arfer wedi cael effaith gadarnhaol ar y staff, partneriaid ac, yn bwysicaf oll, y bobl sy'n cael gwasanaethau gofal a chymorth.
- 1.8. Agwedd allweddol ar y dull gweithredu newydd yw'r cyfarfodydd powlen pysgod ('fishbowl') a gynhelir gan bob tîm. Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnig cymorth gan gymheiriaid, gwaith craffu proffesiynol a her er mwyn sicrhau bod atebion yn ymateb i'r hyn sy'n bwysig i bobl. Gwnaethom arsylwi ar nifer o'r cyfarfodydd hyn ac roedd aelodau'r timau yn cymryd rhan weithredol ym mhob agwedd ar y drafodaeth. Roedd y cyfarfodydd yn ffordd effeithiol o gronni gwybodaeth y timau am adnoddau a rhannu arfer er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl. Gwelsom fod y dull gweithredu hwn yn enghraifft wych o gydweithio ag ymarferwyr i ystyried yr amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael i gefnogi'r unigolyn, gan gynnwys ei rwydweithiau personol, adnoddau cymunedol a gwasanaethau a gomisiynir gan yr awdurdod lleol. Roedd bylchau yn y ddarpariaeth yn cael eu cofnodi ar 'fwrdd rhwystrau' er mwyn i'r tîm uwch-reolwyr eu hystyried.
- 1.9. Roedd y staff yn teimlo'n gadarnhaol am y dull gweithredu newydd a oedd wedi'u galluogi i wneud gwaith cymdeithasol unwaith eto ac wedi rhoi'r pŵer iddynt wneud penderfyniadau, yn ogystal ag amser i fyfrio ar eu harfer. Dywedodd un gweithiwr cymdeithasol wrthym fod adennill cyfrifoldebau proffesiynol wedi bod yn anodd i ddechrau ond bod hyfforddiant a chymorth gan gymheiriaid a rheolwyr wedi ei alluogi i 'ffynnu' fel gweithiwr cymdeithasol.

- 1.10. Roedd tystiolaeth gan yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw a'r sesiynau goruchwyllo a adolygwyd yn dangos bod trefniadau goruchwyllo rheolaidd ar waith. Fe'u defnyddir yn effeithiol er mwyn helpu'r staff i fyfyr ar yr hyn sy'n bwysig i'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw. Gwelsom ddiwylliant o hybu llesiant y staff gan gynnwys ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a threfniadau gweithio hyblyg i hybu cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Roedd y staff hefyd o'r farn fod goruchwylloeth anffurfiol yr un mor bwysig â goruchwylloeth ffurfiol gydag arweinwyr y timau'n cael y cyfle i dreulio amser gyda'r staff. Roedd hyn yn eu galluogi i feithrin dealltwriaeth gyfannol o anghenion pobl am eu bod yn bresennol yn rheolaidd yn ystafell y tîm.
- 1.11. Dywedodd uwch-reolwyr mai'r staff yw eu hased mwyaf ac roeddent wedi cydnabod bod cael gweithlu medrus a llawn cymhelliant yn werthfawr. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff a gyfwelwyd yn ategu'r ethos hwn ac adlewyrchwyd hyn yn y lefelau isel o drosiant staff. Roedd y staff hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod yr uwch-reolwyr i gyd a'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn weladwy ac yn hawdd mynd atynt. Roedd uwch-reolwyr yn llwyr gydnabod yr her sy'n wynebu pob tîm wrth i adnoddau leihau ac wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu.
- 1.12. Gwelsom fod arfer diogelu'n cael ei arwain yn dda gan uwch-reolwyr ac yn cael ei gefnogi'n weithredol gan y tîm diogelu. Gwelsom gydweithio da â phartneriaid fel yr heddlu a staff iechyd.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 1.13. Mae CBS Torfaen wedi datblygu ffyrdd newydd o weithio sy'n golygu newid diwylliant ac arferion gwaith. Mae'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r heriau y mae hyn yn eu hachosi ac mae'n gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn gwreiddio egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 1.14. Roedd uwch-reolwyr ac aelodau etholedig yn deall y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant a model gweithredu'r awdurdod lleol yn glir ac roedd pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant ar y model. Gwelsom fod yr aelodau etholedig a'r tîm rheoli corfforaethol yn dangos dealltwriaeth gyffredin o'r cyfeiriad a'r ysgogiad sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi canlyniadau gwell i bobl hŷn yn effeithiol.
- 1.15. Mae CBS Torfaen wedi rhoi nifer o fesurau ar waith i fonitro effaith y model newydd ar unigolion, ond ni wneir hyn mewn ffordd systematig. Mae angen gwneud mwy i ddatblygu fframwaith perfformiad mwy cydlynol. Roedd CBS Torfaen eisoes yn bwriadu adolygu hyn fel rhan o'r adolygiad o arfer sydd i ddod.
- 1.16. Roedd rhai newidiadau wedi cael eu gwneud i'r system sicrhau ansawdd gyda dangosfyrddau byw ac ysgogiadau'n cael eu cynnwys mewn dogfennau craidd. Mae hwn yn faes y gellir ei ddatblygu ymhellach ac mae'r awdurdod lleol yn bwriadu ystyried y materion hyn ymhellach wrth adolygu ei fodel gweithredu.

- 1.17. Er bod sawl llinyn gwaith i ddatblygu cymorth cymunedol a chymorth gan y trydydd sector er mwyn hybu llesiant, megis dechrau mae'r rhain a byddai'n fuddiol eu dwyn ynghyd mewn un strategaeth Llesiant.

- 1.18. Ychydig o dystiolaeth sydd i'w gweld o gynnydd tuag at ddatblygu menter gymdeithasol a diffyg capasiti sy'n gyfrifol am hyn yn ôl uwch-reolwyr.

2. Pobl – llais a dewis

Canfyddiadau:

Mae CBS Torfaen wedi croesawu egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac mae'n helpu pobl i fynegi eu dymuniadau a'r hyn sy'n bwysig iddynt ac yn eu helpu i gael eiriolwr annibynnol, os oes angen, i roi mwy o lais iddynt.

Mae timau ardaloedd yn datblygu gwydnwch ac annibyniaeth pobl er mwyn sicrhau buddiannau tymor hwy.

Gall pobl fod yn hyderus bod galluedd meddyliol yn cael ei ystyried a bod asesiadau o alluedd meddyliol yn cael eu cynnal lle bo angen a bod penderfyniadau budd pennaf yn cael eu gwneud. Mae lleisiau unigol yn amlwg yn y gwaith a wneir gyda phobl. Mae eu barn a'u dymuniadau yn hollbwysig o safbwynt cefnogi canlyniadau personol a diogelu.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 2.1. Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i roi mwy o reolaeth i bobl dros eu gofal a'u cymorth eu hunain drwy reoli risg mewn ffordd gadarnhaol. Mae hyn yn cyd-fynd â'i waith i wrando ar yr hyn sy'n bwysig i bobl a'u grymuso i siarad drostynt eu hunain.
- 2.2. Wrth adolygu cofnodion ysgrifenedig a siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau, gwelsom fod barn pobl yn cael ei cheisio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r canlyniadau yr hoffent eu cyflawni a bod eu dymuniadau a'u teimladau'n cael sylw mawr yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- 2.3. Mae gan bobl bwynt cyswllt cyntaf o fewn tîm gofal cwsmeriaid yr awdurdod lleol. Mae'r tîm yn atgyfeirio pobl at dimau ardaloedd neu'n eu cyfeirio at wasanaethau eraill.
- 2.4. Cafodd gweledigaeth CBS Torfaen ar gyfer timau ardaloedd ei datblygu ar y cyd â defnyddwyr gwasanaethau. Dywedodd un unigolyn wrthym fod y tîm yn ei alluogi i fyw bywyd fel y mynno. Mae timau ardaloedd bellach yn cael sgysiau gwahanol iawn gyda phobl gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig iddynt a'u llesiant cyffredinol, nid dim ond p'un a ydynt yn gymwys i gael gwasanaeth. Roedd y bobl gwnaethom gyfarfod â nhw yn amlwg yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Gwelsom rai asesiadau a oedd yn disgrifio nodau ac amcanion unigol yng ngeiriau'r person ei hun, sy'n dangos yn glir bod sgysiau ar yr hyn sy'n bwysig wedi cael eu cynnal. Mae ymrwymiad i wella sgiliau staff yn y maes hwn ymhellach drwy roi hyfforddiant i bawb ar gyd-gyfathrebu a sgysiau ysgogol.

- 2.5. Mae CBS Torfaen yn ymrwymedig i wella eiriolaeth er mwyn atgyfnerthu gallu pobl i fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau. Gwelsom enghreifftiau yn y ffeiliau o bobl yn cael cymorth drwy eiriolwyr i fynegi eu dymuniadau yn wyneb pwysau gan sefydliadau neu berthnasau.
- 2.6. Caiff pobl yn Nhorfaen eu cynnwys yn y gwaith o ddylunio gwasanaethau mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys paneli defnyddwyr gwasanaethau, grwpiau cyfeirio dinasyddion a chyfarfodydd cyhoeddus/ymgyngori. Yn ogystal, cynhelir grwpiau bach llai ffurfiol a chyfweliadau unigol er mwyn canfod barn pobl, fel y "sgyrsiau caffi" a gynhelir gyda phobl â dementia a'u gofalwyr er mwyn deall beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth i'w bywydau, fel y gellir datblygu gwasanaethau cymorth newydd.

Tystiolaeth ar lefel weithredol

- 2.7. Mae gan CBS Torfaen un pwynt mynediad effeithiol ar gyfer pobl drwy ei bwynt cyswllt cyntaf. Gwelsom enghreifftiau lle cafodd pobl gynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth priodol i'w galluogi i wneud penderfyniadau a dewisiadau gwybodus mewn ffordd amserol neu lle cawsant eu hatgyfeirio at dimau ardaloedd i'w hasesu a'u cynorthwyo. Roedd unrhyw atgyfeiriadau gyda goblygiadau diogelu yn cael eu cyfeirio'n briodol i'r tîm diogelu.
- 2.8. Gwelsom fod asesiadau'n seiliedig ar y rhagdybiaeth mai'r person sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau amdano ei hun. Gwelsom ffocws cyson ar gyd-gynhyrchu gan gydnabod mai'r bobl eu hunain yw'r arbenigwyr ar eu sefyllfa. Roedd hyn yn galluogi pobl i ddefnyddio gwahanol fathau o gymorth i hybu annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol a chymryd risgiau'n gadarnhaol. Roedd hyn yn adlewyrchu'r egwyddor allweddol a nodwyd gan yr awdurdod lleol i gynnal annibyniaeth pobl.
- 2.9. Siaradodd y staff yn hyderus am ddefnyddio'r Ddeddf Galluedd Meddyliol fel rhan o'u gwaith o ddydd i ddydd. Gwelsom fod asesiadau o alluedd meddyliol wedi'u strwythuro'n dda a'u bod yn cael eu cofnodi air am air fel arfer, er mwyn adlewyrchu llais y person. Roedd hyn yn cynnig tystiolaeth a rhesymeg glir ar gyfer penderfyniadau.
- 2.10. Mae cysylltwyr cymunedol wedi ennill eu plwyf yn yr awdurdod lleol ac maent yn cysylltu â thimau ardaloedd er mwyn ystyried cymorth amgen i bobl. Gwelsom lawer o enghreifftiau o waith gwych yn cael ei wneud yn y gymuned gan gysylltwyr cymunedol a oedd yn gweithio gyda phobl a oedd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, yn ddihyder ac yn teimlo eu bod wedi'u hallgáu o'u cymuned. Mewn un achos, roedd person a oedd yn byw ar ei ben ei hun wedi cael cymorth i gyflawni ei nod o fod yn fwy annibynnol. Drwy'r cysylltwr cymunedol, cafodd ei gyflwyno i glwb cinio a grŵp cymdeithasol lleol. Roedd pob aelod o'r staff wedi canmol y gwaith a wneir gan gysylltwyr cymunedol ac roeddent yn teimlo eu bod yn adnodd hollbwysig er mwyn helpu pobl i aros yn eu cymuned.
- 2.11. Er i ni weld rhywfaint o dystiolaeth bod asesiadau gofalwyr yn cael eu cynnig, ychydig o bobl a oedd yn manteisio arnynt am nad oeddent yn ystyried eu

hunain yn ofalwyr. Yr unig beth roedd y ffurflen asesu yn ei wneud oedd cofnodi p'un a oedd asesiad wedi cael ei gynrig gyda'r ateb 'ie' neu 'na'. Gwelsom fod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo asesiadau gofalwyr ac roedd yr awdurdod lleol wedi cydnabod hyn yn ei hunanasesiad. Bydd angen iddo ystyried sut mae'n hyrwyddo asesiadau gofalwyr a chael system ar waith i gofnodi data y gellir eu dadansoddi a'u defnyddio i ddatblygu arfer yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

- 2.12. Gwelsom rywfaint o dystiolaeth yn y ffeiliau bod ymarferwyr yn cynrig yr opsiwn o daliadau uniongyrchol, fodd bynnag prin yw'r bobl sy'n manteisio arnynt, sy'n golygu efallai nad yw'r ystod lawn o opsiynau sydd ar gael i bobl a'u gofalwyr gyflawni eu canlyniadau yn cael ei hystyried yn llawn. Roedd yr awdurdod lleol yn llwyr gydnabod yr angen i ddatblygu'r gwasanaeth hwn ar ôl iddo gael adborth gan bobl sydd wedi dweud bod y fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â rheoli taliadau uniongyrchol wedi eu cadw rhag manteisio arnynt. Er mwyn hyrwyddo'r taliadau uniongyrchol yn well, mae cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod y broses o reoli'r taliadau hyn yn dychwelyd i'r awdurdod lleol yn ystod y 12 mis nesaf.
- 2.13. Mae canran isel (9.8) o oedolion sy'n byw yn Nhorfaen yn siarad Cymraeg ond mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ei bod yn bwysig darparu gwasanaeth yn iaith ddewisol yr unigolyn. Gwelsom asesiadau'n cael eu cynrig drwy gyfrwng y Gymraeg ac mewn un enghraifft, dywedodd gweithiwr cymdeithasol wrthym ei fod yn sgwrsio yn Gymraeg yn unig â'r person yr oedd yn ymweld ag ef. Drwy ei bresenoldeb yn y grŵp 'Mwy Na Geiriau', gall yr awdurdod lleol rannu gwarsi i'w dysgu ac arfer gorau â chydweithwyr o awdurdodau lleol eraill a'r Bwrdd Iechyd Lleol.
- 2.14. Mae grymuso pobl yn hollbwysig ac mae eiriolaeth yn bwysig er mwyn cefnogi hyn. Mae gwasanaethau eirioli wedi cael eu hatgyfnerthu drwy wasanaeth Mynediad at Eiriolaeth Gwent (GATA) a lansiwyd yn ddiweddar, ac mae gwaith yn cael ei wneud gan y tîm trawsnewid rhanbarthol a Phartneriaeth Eiriolaeth Golden Thread i sicrhau bod gwasanaethau eirioli effeithiol ar gael drwy'r rhanbarth.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 2.15. Roedd yr aelod etholedig arweiniol, a benodwyd yn ddiweddar ym mis Mai 2019, wedi meithrin dealltwriaeth dda o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau oedolion. Yn benodol, roedd yn cydnabod pryderon gofalwyr a dywedodd ei fod yn cadw golwg ar unrhyw faterion diogelu. Roedd yn ymwybodol o'r heriau a wynebir wrth reoli'r gyllideb yn wyneb pwysau cynyddol.
- 2.16. Gwelsom dystiolaeth o gyfathrebu cadarnhaol rhwng yr aelod arweiniol ac aelodau etholedig o bob rhan o sbectrwm gwleidyddol CBS Torfaen. Roedd cyfarfodydd ag aelodau yn gadarnhaol ac roedd eu cyfranogiad gweithredol yn y gwaith o redeg y cyngor yn amlwg yn cael ei annog a'i gefnogi.
- 2.17. Gwelsom fod y tîm cwynion wedi gwneud llawer o waith i gyfathrebu'n well â'r holl dimau oedolion, gan weithio gyda nhw i'w helpu i ddeall beth yw cwyn,

ymateb yn amserol ac edrych ar wersi a ddysgwyd o gwynion yn y gorffennol, fel cadw cofnodion ac ymateb i bobl pan roddir addewid i wneud hynny.

- 2.18. Gwelsom y gronfa ddata electronig ar gyfer cofnodi a monitro cwynion a gadarnhaodd fod nifer mawr o gwynion yn cael eu datrys ar y cam anffurfiol o'r broses. Cynhelir cyfarfodydd misol â'r pennaeth gwasanaethau oedolion er mwyn adolygu unrhyw gwynion, monitro cynnydd ac amlygu themâu. Caiff adroddiad blynyddol ei baratoi ar gyfer y tîm uwch-reolwyr sy'n rhoi gwybodaeth am bob maes gwasanaeth ac a gaiff ei gyflwyno i'r aelodau drwy'r Aseiad o Berfformiad Corfforaethol. Gwelsom fod gan CBS Torfaen ethos o ddysgu mewn perthynas â chanmoliaeth a chwynion.

3. Partneriaethau ac integreiddio – cydweithredu sy'n ysgogi'r broses o gyflenwi gwasanaethau

Canfyddiadau:

Mae gan yr awdurdod lleol gydberthynas gadarnhaol sy'n aeddfedu gyda'r bwrdd iechyd. Gwelsom waith partneriaeth strategol cadarnhaol rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau tai wrth iddynt ystyried anghenion tai trigolion.

Gwelsom fod cynlluniau gofal a'r ddarpariaeth ofal yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i bobl. Mae angen i CBS Torfaen sicrhau ei fod yn cyfathrebu'n glir â staff wrth wneud newidiadau i arfer neu wasanaethau.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 3.1. Gwelsom sut roedd menter partneriaeth Gartref yn Gyntaf i atal derbyniadau i'r ysbyty wedi llwyddo i ostwng cyfraddau derbyn i'r ysbyty yn effeithiol. Roedd y cynllun yn golygu y gallai pobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn gynharach ac yn atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty yn y lle cyntaf a gorfod mynd nôl dro ar ôl tro. Roedd asesiadau'n dangos bod gofal a chymorth priodol yn cael eu rhoi er mwyn cyflawni canlyniadau personol.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 3.2. Mae timau ardaloedd wedi dechrau meithrin cysylltiadau gwell â'r gymuned, gan gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol ac atgyfnerthu cysylltiadau â darparwyr lleol a rhanddeiliaid allweddol. Dywedodd staff wrthym eu bod wedi gallu dod i adnabod eu cymunedau'n well ar ôl i'w rheolwyr eu hannog i dreulio amser yn y gymuned yn meithrin cysylltiadau â gweithwyr proffesiynol eraill a phartneriaid cymunedol. Gwelsom dystiolaeth fod rhai timau yn mynd i feddygfeydd ac eglwysi lleol yn rheolaidd er mwyn rhoi gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwneud gwaith ataliol.
- 3.3. Gwelsom nifer o enghreifftiau o arfer cadarnhaol ym maes mentrau partneriaeth, gan gynnwys y caffi dementia, y clinig cof a'r tîm cwympiadau. Yn sail i'r rhain i gyd roedd gwaith partneriaeth gweithredol da rhwng y sector iechyd, y gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector. Roedd y staff yn rhannu'n un weledigaeth ar gyfer hybu annibyniaeth drwy gydweithio, deall rolau ei gilydd a rhannu sgiliau. Yn y tîm cwympiadau, roedd y nyrs gofrestredig wedi hyfforddi cynorthwywyr ailalluogi i ddarllen lefelau dirlawnder ocsigen a gwirio cyfarpar fel nebiwleiddwyr, gan helpu i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty. Roedd hyn yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer pwysau'r gaeaf yr enillodd y Tîm Cwympiadau wobwr amdano.
- 3.4. Gwelsom fod y Tîm Adnoddau Cymunedol yn gydlynol ac yn llawn cymhelliant a'i fod yn defnyddio ac yn datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl, fel gwelyau cam i lawr a gwelyau dydd therapïau yn yr Ysbyty Sirol. Mae hyn wedi helpu i atal pobl rhag cael eu derbyn i ysbytai aciwt ac wedi eu galluogi i gael eu trin

yn agosach i gartref. Mae'r awdurdod lleol yn awyddus i ddatblygu ei ddull gweithredu Gofal yn Nes at y Cartref er mwyn hybu annibyniaeth, cymryd risgiau'n gadarnhaol a chynhwysiant cymdeithasol.

- 3.5. Gwelsom y gellid gwella gwaith partneriaeth rhwng staff iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol gyda'r timau adnoddau cymunedol a'r timau ardaloedd drwy feithrin dealltwriaeth well o rolau ei gilydd ac egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Byddai hyn yn golygu mwy o integreiddio, yn osgoi dyblygu tasgau ac, felly, yn darparu gwasanaeth di-dor i bobl. Mae'r awdurdod lleol wedi cydnabod hyn ac wedi penodi uwch-reolwr i oruchwylio'r gwaith o ailfodelu rolau therapyddion galwedigaethol yn y gwasanaeth. Bydd angen i CBS Torfaen sicrhau bod llwybrau cyfathrebu clir ar waith i'r holl staff, partneriaid a'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ynghylch unrhyw brosesau newid.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 3.6. Roedd tystiolaeth glir bod yr awdurdod lleol yn defnyddio model gofal cymdeithasol newydd a'i fod yn gweithredu yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Gwelsom nifer o enghreifftiau cadarnhaol o'r ffordd y mae wedi ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, yn enwedig ym maes atal a chynnwys pobl wrth geisio cyflawni'r nodau llesiant. Fodd bynnag, mae'r awdurdod lleol yn cydnabod bod angen gwneud mwy i sicrhau bod yr egwyddor hon yn cael ei gwreiddio'n gyson a'i hintegreiddio'n well ar draws yr awdurdod lleol a gyda phartneriaid allanol.
- 3.7. Partneriaeth rhwng y pum awdurdod lleol yn rhanbarth Gwent a'r bwrdd iechyd yw Gartref yn Gyntaf ac mae'n cynnig asesiadau cyflym a chymorth i bobl sy'n cael eu rhyddhau o Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys ac unedau arhosiad byr ysbytai. Rhaid ystyried pa mor gynaliadwy yw'r gwasanaeth hwn, a gaiff ei ariannu hyd at fis Medi 2020 drwy'r grant Trawsnewid, ac yn benodol sut y caiff ei wreiddio mewn arfer craidd.
- 3.8. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd y mae'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau. Mae'n gyfrifol am dîm Trawsnewid Gwent ac mae'n gweithio'n strategol gyda'r pedwar cyngor arall a'r byrddau iechyd er mwyn gwella profiad cyffredinol y bobl sy'n cael cymorth.
- 3.9. Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar ailalluogi wrth ailddylunio gwasanaethau cymorth cartref gan newid o gomisiynu amser a thasgau i roi cymorth mewn ffordd fwy hyblyg a gaiff ei harwain gan y defnyddiwr. Dywedodd darparwyr gofal cartref wrthym am y gwaith partneriaeth cadarnhaol sy'n cael ei wneud gyda darparwyr. Dywedodd y darparwyr wrthym eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn yn y gwaith o ddylunio'r cyfeiriad ar gyfer datblygu gofal cartref. Roedd pawb yn cydnabod mai megis dechrau oedd y gwaith hwn ond roeddent o'r farn bod yr awdurdod lleol yn dod yn fwy parod i gydweithio, gan alluogi gwasanaethau i ganolbwyntio ar yr unigolyn a bod yn hyblyg ac yn fwy ymatebol.

- 3.10. Un datblygiad cadarnhaol oedd bod y Strategaeth Gofal Cartref yn ceisio gwella gwasanaethau mewnol a gwasanaethau asiantaethau allanol. Mae sawl elfen i'r strategaeth hon a fydd yn cynnwys cynyddu'r gwasanaeth mewnol o 10% i 14%. Yn ogystal, mae £500k wedi cael ei ddyrannu o'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi ffyrdd arloesol o leddfu rhywfaint o'r pwysau ym maes gofal cartref ar draws yr awdurdodau lleol a'r sector annibynnol. Mae CBS Torfaen hefyd yn helpu'r trydydd sector i sicrhau £7m o Arian Grant Llywodraeth Cymru i'r Trydydd Sector.
- 3.11. Gwelsom gydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r bwrdd iechyd ar lefel uwch, sy'n dechrau datblygu ffyrdd newydd o weithio tuag at nodau cyffredin. Mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol a chyfarwyddwr yr isadran gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol yn cyd-gadeirio cyfarfodydd Partneriaeth Integredig Torfaen a Bwrdd Strategol Oedolion Gwent, sy'n bwydo i mewn i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Gwnaethant ddisgrifio cydberthynas waith aeddfed iawn, lle caiff her briodol ei chroesawu, sy'n arwain at weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau ac sy'n dechrau datblygu ffyrdd newydd o weithio tuag at nodau cyffredin.

4. Atal ac ymyrraeth gynnar

Canfyddiadau:

Mae pobl yn cael cymorth i aros yn annibynnol a, lle bo hynny'n bosibl, aros yn eu cartrefi eu hunain neu ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain.

Mae CBS Torfaen wedi ad-drefnu gan ganolbwyntio ar ddefnyddio ymyriadau ataliol ac ymyriadau cynnar er mwyn diwallu anghenion gofal a chymorth pobl y mae angen help arnynt.

Dangosodd CBS Torfaen ei fod yn barod i arloesi drwy ystyried technoleg gynorthwyol er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaethau a ddarperir yn y dyfodol.

Tystiolaeth ar lefel yr unigolyn:

- 4.1. Gwelsom dystiolaeth fod gan dimau ardaloedd ddealltwriaeth well o anghenion pobl a'u bod bellach yn gallu darparu gwasanaethau ataliol sydd wedi'u teilwra'n well i anghenion pobl ac sy'n helpu i osgoi sefyllfaoedd o greisis.
- 4.2. Gwelsom fod camau gweithredol yn cael eu cymryd i atal pobl rhag cael eu derbyn i'r ysbyty lle bo hynny'n briodol ac, os oedd pobl wedi treulio amser yn yr ysbyty, roedd rhaglenni cymorth ar waith i'w galluogi i ddychwelyd adref.
- 4.3. Yn y ffeiliau a adolygwyd gennym, gwelsom dystiolaeth fod asesiadau'n cael eu cynnal yn amserol gan arwain at becynnau gofal priodol a chymesur a oedd yn cael eu hadolygu'n unol â chanllawiau statudol.
- 4.4. Cyfeiriodd darparwyr gofal cartref at welliannau o ran asesiadau gyda mwy o wybodaeth yn cael ei darparu gan y tîm broceru ynghyd â chynlluniau gofal a chymorth manwl a oedd yn cynnwys manylion clir am ddewisiadau gofal y bobl.
- 4.5. Mae CBS Torfaen yn hyrwyddo gwaith sy'n pontio'r cenedlaethau, er enghraifft, plant ysgol yn ymweld ag adrannau yn yr ysbyty sirol a diwrnodau gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau. Gwelsom fod pobl yn cael budd o'r profiadau hyn am eu bod yn ymgysylltu â'u cymunedau, ac yn teimlo'n llai ynysig.

Tystiolaeth ar lefel weithredol:

- 4.6. Wrth adolygu ffeiliau a siarad â staff, gwelsom fod arferion diogelu yn sicrhau iechyd a llesiant pobl a gaiff eu hatgyfeirio a bod penderfyniadau cychwynnol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau a gweithdrefnau. Ar adegau, roedd angen dod â gweithgareddau i ben ar ôl cytuno ar ganlyniadau mewn ffordd fwy amserol.

- 4.7. Defnyddir y cyfarfod Llif Safleoedd wythnosol i ystyried y cyfyngiadau ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty unwaith y byddant yn holliach o safbwynt meddygol. Mae'r cydgyfarfod hwn yn ystyried rhesymau ac yn nodi camau gweithredu fel y gall y sector iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol hwyluso'r broses ryddhau ar y cyd. Gwelsom dystiolaeth glir a phriodol bod technoleg gynorthwyol yn cael ei hyrwyddo er mwyn galluogi pobl i ddychwelyd adref. Roedd hyn o fudd i bobl ac yn rhywbeth roeddent yn ei groesawu.
- 4.8. Gwelwyd technoleg gynorthwyol, fel animeiddiadau o anifeiliaid anwes a babanod, yn cael ei defnyddio er mwyn dangos i grŵp gofalwyr sut y gallai cyfarpar fod o gymorth iddynt yn eu rôl ofalu. Un enghraifft gadarnhaol oedd gofalwr a wnaeth ddysgu sgiliau TG i'w galluogi i siopa ar-lein, cysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol a ffonio ffrindiau a theulu er mwyn gwneud iddi deimlo'n llai ynysig, hybu ei hannibyniaeth ac atal ei hanghenion rhag gwaethygu. Gwelsom hefyd enghraifft lle roedd person a oedd wedi cael strôc yn defnyddio llechen gyda rhaglenni arbenigol fel ffordd arall o gyfathrebu. Roedd hyn yn ei alluogi i gyfathrebu ar lafar yn ystod ei asesiad, gan roi llais iddo, a chymryd rhan yn y gwaith o gynllunio'r gofal a'r cymorth a roddir iddo.
- 4.9. Mae CBS Torfaen wedi ei chael hi'n anodd comisiynu pecynnau gofal cartref. Mae hyn wedi cael effaith negyddol ar bobl sy'n byw gartref a'r rhai a oedd yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Disgrifiodd darparwyr gofal a staff sut roedd yr awdurdod lleol yn ceisio mynd i'r afael â nifer y pecynnau gofal a oedd heb eu dyrannu, drwy weithio gyda darparwyr. Clywsom fod hyn wedi golygu y gall darparwyr rannu pecynnau gofal a dyrannu pob pecyn gofal. Roedd darparwyr yn teimlo hefyd y gallai gweithio ar sail ardaloedd eu galluogi i gyflogi mwy o staff sy'n methu gyrru ac a fyddai'n cerdded i'w lleoliadau gwaith, gan ddenu ymgeiswyr lleol sy'n adnabod y gymuned. Yn ogystal, clywsom am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda Choleg Gwent i gynyddu nifer y myfyrwyr iechyd a gofal cymdeithasol a gwella'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt, er mwyn hyrwyddo llwybr gyrfa yn y sector gofal.

Tystiolaeth ar lefel strategol:

- 4.10. Gwelsom waith strategol da rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau tai gydag ystod o dai yn cael eu darparu er mwyn cynnal annibyniaeth pobl. Mae gan CBS Torfaen brofiad o ddarparu tai cymdeithasol a gweithio mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai ac Iechyd. Mae cynlluniau ar waith ar gyfer sawl prosiect i roi mwy o gymorth i bobl hŷn drwy ddatblygu stoc dai a fydd yn cynnig darpariaeth cam i fyny/cam i lawr, seibiant ac ailalluogi er mwyn diwallu anghenion trigolion yn y dyfodol.
- 4.11. Mae diogelu oedolion yn un o flaenoriaethau corfforaethol CBS Torfaen. Mae'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn cadeirio'r grŵp arweinwyr diogelu corfforaethol sy'n goruchwylio cynllun gweithredu blynyddol, a gaiff ei fonitro gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu. Er bod hyfforddiant diogelu yn

orfodol i holl staff CBS Torfaen, gwelsom nad oedd rhai aelodau corfforaethol wedi cael yr hyfforddiant hwn.

- 4.12. Y sbardunau strategol ar gyfer diogelu yw Bwrdd Partneriaeth Diogelu Gwent a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent. Gwelsom waith partneriaeth cadarn drwy ardal Gwent i gyd ar gyfer diogelu ac roedd gan ffrydiau gwaith gofal cymdeithasol linellau atebolrwydd clir a phrosesau ar gyfer blaenoriaethu llif gwaith.
- 4.13. Mae'r awdurdod lleol wedi cael arian gan gynllun Gov.Tech Llywodraeth y DU ac mae wrthi'n ystyried cyfleoedd comisiynu fel y gellir defnyddio technoleg newydd i hybu llesiant ac annibyniaeth. Cawsom wybod am swydd newydd a ariennir gan y Gronfa Gofal Integredig i hyfforddi a helpu pobl i ddefnyddio'r dechnoleg ac mae strategaeth Technoleg Gynorthwyol yn cael ei datblygu ar hyn o bryd.
- 4.14. Gwnaethom gyfarfod â Chynghrair Gwirfoddol Torfaen sy'n cydweithio â Phartneriaeth Gwent a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gan roi llais i bobl a helpu i gyflwyno gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector. Roedd y grwpiau hyn yn teimlo ei bod hi'n anodd cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau a chael gafael ar ffrydiau cyllido. Clywsom fod sefydliadau gwirfoddol yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r cynnydd mewn galw oherwydd cyni. Mae hwn yn faes i'w ddatblygu ac mae angen gwneud mwy i ddefnyddio a chydlynu asedau cymunedol.
- 4.15. Mae llawer o'r swyddi yng ngwasanaethau ataliol CBS Torfaen wedi cael eu datblygu drwy arian grant Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Gronfa Gofal Integredig, y Gronfa Trawsnewid a'r Grant Cefnogi Pobl. Roedd y cyfarwyddwr a'r prif weithredwr yn cydnabod y bydd angen nodi anghenion cyllido cynaliadwy gan y bydd cyllid y Gronfa Gofal Integredig yn dod i ben yn 2021.

Dull

Dewiswyd ffeiliau achos i'w holrhain a'u hadolygu o sampl o achosion. Adolygwyd cyfanswm o 60 o ffeiliau achos a chynhaliwyd cyfweiliadau dilynol â gweithwyr cymdeithasol ac aelodau o'r teulu mewn perthynas ag 16 o'r rhain. Siaradwyd â rhai pobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaethau.

Adolygwyd 10 o asesiadau o alluedd meddyliol.

Cyfwelwyd ag amrywiaeth o gyflogeion yr awdurdod lleol, aelodau etholedig, uwch-swyddogion, y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, y prif weithredwr a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.

Cynhaliwyd arolwg o staff gofal cymdeithasol rheng flaen.

Gwnaethom ofyn am farn y staff ar eu trefniadau goruchwyllo a gwnaethom adolygu polisïau a chanllawiau'r awdurdod. Edrychwyd ar sampl o dair cwyn a gwybodaeth gysylltiedig.

Adolygwyd gwybodaeth am berfformiad ac amrywiaeth o ddogfennau perthnasol yr awdurdod lleol.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â nifer o uwch-swyddogion o'r bwrdd iechyd lleol a siaradwyd â staff gweithredol o'r bwrdd iechyd lleol.

Cynhaliwyd cyfweiliadau â nifer o uwch-swyddogion o sefydliadau statudol ac asiantaethau partner o'r trydydd sector.

Darllenwyd y polisïau a'r gweithdrefnau perthnasol.

Gwnaethom arsylwi ar nifer o gyfarfodydd Powlen Pysgod a thrafodaethau amlddisgyblaethol.

Y Gymraeg

Saesneg yw prif iaith yr awdurdod lleol a chynhaliwyd yr arolygiad yn unol â hynny. Cynigiwyd gwasanaeth cyfieithu mewn cydweithrediad â'r awdurdod lleol. Siaredir Cymraeg yn Nhorfaen yn ogystal â nifer bach o ieithoedd eraill.

Cydnabyddiaethau

Hoffai AGC ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn: unigolion a gofalwyr, staff, rheolwyr, aelodau, sefydliadau partner a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill.